2025-26

LLAWLYFR
YSGOL CYMERAU

“Lle daw dwy afon yn un lli.”

GAIR O GROESO

Alan Jones
Pennaeth

Annwyl Rieni,

Croeso i'n hysgol ni. Mae awyrgylch, ethos ac ansawdd dysgu ac addysgu yn bwysig i ni. Amcanwn i'r plant fod yn hapus, caredig, yn driw i'w gilydd a chael llu o brofiadau cyfoethog fel eu bod yn tyfu yn addysgol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol.

Os ydych yn rhiant i blentyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, hoffem eich croesawu fel rhieni, ac edrychwn ymlaen at gysylltiad hapus a buddiol yn ystod y blynyddoedd i ddod. Os oes gennych blentyn yn yr ysgol yn barod, 'rydym yn falch o gadw'r cysylltiad â chwi.

Mae'r prosbectws hwn yn cynnig gwybodaeth am yr ysgol, ei nodau, cwricwlwm a gweithgareddau. Mae'r wybodaeth yn y prosbectws yn gywir adeg ei gyhoeddi. Er hyn, ni ellir cymryd yn ganiataol na fydd newidiadau yn digwydd yn ystod y flwyddyn, neu'r blynyddoedd sydd i ddod. Mae croeso i rieni sydd yn ystyried anfon eu plant i'r ysgol drefnu i ymweld â'r ysgol trwy gysylltu â'r Pennaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder, dewch i siarad hefo ni gan ein bod yn credu yn gryf fod plant hapus yn dysgu yn dda.

Edrychwn ymlaen i'ch cyfarfod.

Alan Jones - Pennaeth

Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

"Rydym fel llywodraethwyr yn falch iawn o fod yn rhan o fywyd Ysgol Cymerau ac rydym yn gwneud pob ymdrech i'w cefnogi a'u cynorthwyo ymhob ffordd. Wrth anfon eich plentyn i Ysgol Cymerau gallwch fod yn hyderus bydd ef/hi yn cael yr addysg a'r profiadau orau posibl."

Guto Dafydd - Cadeirydd

GWYBODAETH YR YSGOL

YSGOL GYNRADD SIROL, DYDDIOL, DWYIEITHOG, GYD ADDYSGOL YW YSGOL CYMERAU

YSGOL CYMERAU
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AR

FFÔN: (01758) 612001
E-BOST – alan.jones@cymerau.ysgoliongwynedd.cymru

www.ysgolcymerau.org

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

Mr Guto Dafydd	Cadeirydd - Rhieni
Mr Aled Davies	Is Gadeirydd - Cyfetholedig
Mrs Nia Williams Mr James Williamson	Cyfetholedig Cyfetholedig
Mr Alan Jones	Pennaeth
Cyng Hefin Underwood Cyng Iwan Edgar Mrs Einir Rees Jones Cyng Elin Hywel	AALI AALI - Cyngor Tref AALI AALI
Mrs Nia Owen Parch Rhun ap Robert Mr Lester Hughes	Rhieni Rhieni Rhieni
Miss Karen Roberts-Jones	Athrawon
Miss Ffion Williams	Staff Ategol
Ms Sharon Williams	Clerc

EIN
GWELEDIGAETH

Mae ethos a gwerthoedd yr ysgol yn tarddu o'n harwyddair **"Lle daw dwy afon yn un lli".** Mae'r arwyddair yn cwmpasu nodweddion ffisegol y dref, ystyr y gair Cymerau, a'n gweledigaeth i baratoi'r plant ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r gwerthoedd o **barch, mentro, dyfalbarhau a chydweithio** yn berthnasol i bawb sydd yn dod trwy ddrysau Ysgol Cymerau. Mae'r gwerthoedd yma yn cael ei arddangos o amgylch yr ysgol.

Credwn fod plant sy'n hapus yn dysgu'n well. Os cânt barch gan eu rhieni a'u hathrawon, maent yn dangos parch yn ôl ac maent yn fwy awyddus i wneud eu gorau. Ceisiwn sicrhau ein bod bob amser yn barod i wrando ar blant a bod yn deg – nid yw hyn yn syml yn golygu trin pob plentyn yn union yr un fath bob amser. Rhaid trin pob plentyn yn ôl ei anghenion a'i bersonoliaeth. Mae rhai plant yn swil ac eisiau eu canmol un i un tra bo eraill wrth eu bodd yn cael sylw ar goedd. Rydym yn gynhwysol ac yn sensitif i anghenion pob unigolyn. Ymfalchïwn, dathlwn a hyrwyddwn iaith a diwylliant Cymru. Magwn ethos a diwylliant o hunan welliant parhaus drwy annog mewnbwn a barn gan blant, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol er mwyn anelu at ddarpariaeth ragorol.

Cofiwn mai ein nod a'n pwrpas yw paratoi'r plant gorau gallwn at y dyfodol. Mae'n dipyn o gyfrifoldeb, ond yn yr un modd mae'n anrhydedd bod yn rhan o'u taith.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae pob plentyn yn wahanol. Mae pob plentyn yn datblygu ar raddfa wahanol.

Mae gan Ysgol Cymerau drefniadau ar gyfer adnabod a darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol. Mae'n rhan o'n polisi i adnabod anghenion ein disgyblion mor fuan ag y medrwn. Mae'r Cod Ymarfer yn caniatáu monitro agos o'r ddarpariaeth hon; gall hyn fod ar ffurf cefnogaeth neu waith gwahaniaethol oddi mewn i'r dosbarth, neu trwy dargedu'r disgyblion i ddatblygu sgiliau penodol.

Yn ystod holl gamau'r broses o ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol unrhyw ddisgybl, rydym yn ceisio gweithio mewn cysylltiad clos â'r rhieni, gan bwysleisio pwysigrwydd perthynas gydweithredol iach rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae gan yr ysgol Bolisi Cyfle Cyfartal i'r holl ddisgyblion.

PLANT AG ANGHENION CORFFOROL

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu **pob** plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chynllun Cydraddoldeb cyfredol. Mae ysgol Cymerau wedi ei addasu i gynnwys ystafell therapi pwrpasol.

POLISI DERBYN YR YSGOL

Dilynir polisi Awdurdod Addysg Gwynedd. Mae'r ysgol yn derbyn plant yn rhan amser o'r Medi sydd yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn llawn amser yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.
Yr Awdurdod Addysg sydd yn rhoi caniatâd mynediad i blant y dalgylch a phlant all-ddalgylch. Mae'n bosib gwneud cais trwy ddilyn y linc isod -

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Mynediad-ysgolion/Mynediad-ysgolion-symud-ysgol.aspx

CYLCH MEITHRIN

Mae'r Cylch Meithrin wedi ei leoli ar safle'r ysgol ac mae cydweithio rhwng yr ysgol a'r Cylch yn golygu trosglwyddo'n esmwyth i'r disgyblion i'n blwyddyn Meithrin ni. Fe all eich plentyn gael mynediad i'r Cylch Meithrin wedi ei penblwydd yn 2 oed. Mae'r Cylch yn cynnig gofal tan 5 o'r gloch hefyd i'r plant. Gall yr ysgol eich cynghori a'ch cyfeirio tuag at staff y cylch er mwyn i chi dderbyn gwybodaeth bellach.

RHESTR STAFF

PENNAETH
Alan Wyn Jones

DIRPRWY BENNAETH
Karen Roberts-Jones

ATHRAWON
Lisa Williams (Cydlynydd ADY)
Catrin Jones (Cydlynydd ADY cyfnod mamolaeth)
Nia Vaughan Jones
Ffion Llywelyn
Hayley Williams
Karen Roberts-Jones
Catrin Davis
Ffion Hughes
Sheena Dorkins
Eleri Wyn Thomas
Janet Ann Roberts

CYMORTHYDDION
Linda Owen
Llinos Angharad
Lynne Warren
Ffion Williams
Nia Owen
Lisa Williams
Mandy Jones
Vicky Williams
Donna Gill
Meirwen Hughes
Nerys Evans
Llio Tate
Llinos Williams
Beca Mann
Tammy Jones

SWYDDOG GWEINYDDOL
Sharon Williams

STAFF Y GEGIN
Natasha Hollinshead (Cogydd â Gofal)
Carrie Thomas
Jenny Williams
Tasha Ogilvy
Hayley Warren

GLANHAU
Meirwen Medi Hughes
Tracey Evans

GORUCHWYLWYR AMSER CINIO
Dorothy Shivlock

DIWRNOD YSGOL

	Sesiwn y bore	**Sesiwn y Prynhawn**
Dosbarth Meithrin	9:00 - 11:00	
Blynyddoedd Derbyn ac 1	*Drysau ar agor 8:50* 9:00 - 12:00 (fe fydd giatiau yr ysgol yn cael eu cau yn brydlon am 9:00)	1:00 - 3:00
Blynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6	*Drysau ar agor 8:50* 9:00 - 12:00 (fe fydd giatiau yr ysgol yn cael eu cau yn brydlon am 9:00)	1:00 - 3:15

TYMHORAU YSGOL 2025-26

Tymor yr Hydref 2025 1 Medi 2025 - 19 Rhagfyr 2025
Tymor y Gwanwyn 2026 5 Ionawr 2026 - 27 Mawrth 2026
Tymor yr Haf 2026 13 Ebrill 2026 - 20 Gorffennaf 2026

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Gwener, 2 Medi, 2025.

Gwyliau
27 Hydref – 31 Hydref 2025 **(Hanner-Tymor)**
22 Rhagfyr 2025 - 2 Ionawr 2026 **(Gwyliau'r Nadolig)**
16 - 20 Chwefror 2026 **(Hanner-Tymor)**
30 Mawrth - 10 Ebrill 2026 **(Gwyliau'r Pasg)**
4 Mai 2025 **(Calan Mai)**
25 Mai – 29 Mai 2026 **(Hanner-Tymor)**
21 Gorffennaf - 31 Awst 2026 **(Gwyliau'r Haf)**

Mae 4 diwrnod hyfforddiant arall i'w cymryd gan bob ysgol yn ystod 2025-26
.

TREFNIADAU I RIENI YMWELD GYDA'R YSGOL

Rydym fel ysgol yn barod bob amser i groesawu rhieni i'r ysgol am sgwrs neu os oes pryder. Os ydych yn dymuno ymweld gyda'r ysgol, gofynnwn i chwi gysylltu er mwyn gwneud apwyntiad i weld y Pennaeth.

TREFN DIWRNOD ARFEROL

Ni ddylai'r plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.50yb - ni fydd yr ysgol yn gyfrifol am y plant cyn hyn. (oni bai eu bod yn mynd i'r Clwb Brecwast sy'n agored o 8.10am ymlaen).

Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod eich plentyn yn yr ysgol erbyn 9.00yb ~ mae prydlondeb yn arferiad da i'w feithrin. Bydd giatiau yr ysgol yn cael eu cau am 9yb. Os yw plentyn yn dod ei hun i'r ysgol ac yn cyrraedd yn hwyr ni allwn warantu ein bod yn ymwybodol fod y plentyn yn disgwyl ochr allan i'r giât. Fe fydd y plant sydd yn cyrraedd ar ôl amser yn cael eu marcio'n 'hwyr' ar y gofrestr.

Os bwriedir i rywun gwahanol ddod i nôl eich plentyn, mae angen i chwi adael i ni wybod trwy alwad ffôn, nodyn neu hysbysu'r staff wrth ddrws y dosbarth yn y bore. Nid ydym yn dibynnu ar air plentyn yn hyn, a gall camddealltwriaeth fod yn beryglus. Bydd y plant yn gadael yr ysgol 3.00yh (Blynyddoedd Derbyn ac 1) ac am 3.15yh (Blynyddoedd 2,3,4,5 a 6). Bydd y plant Meithrin bore yn gadael am 11.00am. Ni fyddwn yn gollwng yr un plentyn M, D, B1 na B2 heb sicrhau fod rhywun i'w gyrchu adref, neu fod trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw gyda'r rhieni. Pe digwydd i chwi fod yn hwyr, ac yn methu cyfarfod eich plentyn ar ddiwedd y dydd gofynnwn i chi ffonio'r ysgol er mwyn i ni fedru gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch eich plentyn. Dylai pob plentyn Bl 3-6 ddychwelyd i'r ysgol a dweud wrth athro neu athrawes os nad oes neb wedi dod i'w cyfarfod.



DIOGELWCH WRTH GLUDO PLANT I'R YSGOL

Mae Ffordd Mela a Ffordd y Faenor yn gallu bod yn brysur iawn yn y boreau a phrynhawniau.

Oherwydd hyn, disgwylir i rieni barcio eu ceir ar y Prom neu yn gwbl glir o fynedfa'r ysgol pan ddanfonant eu plant yn y bore neu wrth eu nôl ar ddiwedd y prynhawn. Ni ddylid parcio o gwbl ar Ffordd y Faenor na maes parcio'r ysgol.

Ni chaniateir i rieni a phlant gerdded trwy'r maes parcio ond, yn hytrach, defnyddio un o'r 2 giât ar gyfer cerddwyr. Pwysleisir hyn oherwydd Iechyd a Diogelwch.

P**EIDIWCH A DOD A CHAR AM YR YSGOL O FFORDD MELA OS GWELWCH YN DDA**.

TEITHIAU LLESOL I'R YSGOL

Rydym yn hybu ffyrdd llesol o deithio i'r ysgol sy'n cynnwys beicio neu gerdded. Mae croeso i'r plant ddod a'u beics i'r ysgol – cyn belled bod helmed diogelwch yn cael ei gwisgo. Atgoffir chi nad yw staff yr ysgol yn gyfrifol am y beiciau nac am ddiogelwch y plant ar y ffordd yn ôl nac ymlaen i'r ysgol. Trefnir 'bysus beicio' yn achlysurol i hybu beicio i'r ysgol.

GWYBODAETH **DEFNYDDIOL**

Clwb Brecwast

Mae'r Clwb Brecwast yn cychwyn am 8.10yb Mae cost o £1 ar gyfer unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd rhwng 8:10yb ac 8:30yb Yna mae'r clwb am ddim o 8.30y.b ymlaen. Nid oes mynediad i'r clwb yn dilyn 8:40. Ni ddylai'r un disgybl gyrraedd yr ysgol cyn yr amseroedd uchod.

Byrbrydau, dwr a llefrith.

Caniateir i blant ddod a ffrwythau a dŵr i'r ysgol yn unig. Mae tri Ffynnon ddŵr wedi ei leoli yn yr ysgol at ddefnydd y plant.

Caniateir i blant ddod â ffrwyth o'i dewis i'r ysgol i'w fwyta amser chwarae, ond ddim grawnwin os gwelwch yn dda. Cynigir llefrith am ddim i blant 3 i 7 oed.

Cinio ysgol

Mae cinio ysgol am ddim i bob plentyn ers Medi 2023.

Os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion diet neu alergedd a fyddwch mor garedig â dweud wrthym cyn iddynt gychwyn yr ysgol.

Os oes arnoch eisiau i'ch plentyn ddod â'i becyn bwyd i'r ysgol, sicrhewch eich bod yn ein hysbysu o flaen llaw os gwelwch yn dda. Ceisiwch sicrhau na fydd ganddynt ddim byd i'w dorri a bod y pecynau bwyd mor iach ac sydd bosib. Nid ydym yn caniatau grawnwin. Dim ond dwr a ganiateir fel diod gyda'r pecyn bwyd.

Presenoldeb a gwyliau o fewn tymor ysgol.

Pan fo plentyn yn absennol disgwylir nodyn neu alwad ffôn gan y rhieni yn rhoi'r rheswm dros yr absenoldeb. Mae'n bosib hefyd gwblhau'r ffurflen absenoldeb sydd ar wefan yr ysgol.
Trafodir achosion cyson o absenoldeb/hwyr gyda'r Swyddog Lles Addysg.
Ni chaniateir i blentyn golli mwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol i fynd ar wyliau. Gellir cael ffurflenni gwyliau o'r Dderbynfa.
Mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn cael eu harolygu'n wythnosol gan y Swyddog Gweinyddol. Mae presenoldeb yr ysgol yn cael ei arolygu yn rheolaidd gan Swyddog Lles yr Awdurdod, fydd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd fydd ei angen.
Os na fydd eich plentyn wedi cyrraedd ei d(dd)osbarth erbyn 9.15 byddwn yn cysylltu â chi drwy'r ffôn neu drwy neges destun yn gofyn i chi roi gwybod i'r ysgol beth yw'r rheswm am ei absenoldeb. Byddwn hefyd yn defnyddio'r system yma i'ch hysbysu o faterion amrywiol.

GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol wisg ysgol swyddogol. Er nad oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo, teimlwn fod gwisg ysgol yn meithrin balchder tuag at yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi, ac felly mawr obeithiwn y byddwch chi, y rhieni'n, barod i gefnogi gwisg swyddogol yr ysgol. Nid oes rhaid i'r wisg ysgol fod â bathodyn yr ysgol arno.

Crys polo glas neu gwyn
Siwmper glas.

Gellir prynu'r wisg swyddogol yn yr ysgol neu o unrhyw archfarchnad leol, os nad ydych am gael gwisg sy'n cynnwys bathodyn yr ysgol. Mae yna grant Llywodraeth Cymru ar gael i helpu gyda chostau gwisg ysgol ar gyfer teuluoedd sydd â hawl i ginio am ddim.

Enwau ar ddillad

Erfyniwn arnoch i sicrhau fod label enw ar bob dilledyn, gan gynnwys cotiau a dillad Addysg Gorfforol.

Dillad Addysg Gorfforol

Mae croeso i'r plant ddod i'r ysgol yn gwisgo tracwisg/dillad chwaraeon yn barod ar gyfer y gwersi addysg gorfforol. Bydd eich plentyn hefyd angen crys – t a throwsus byr ac esgidiau Addysg Gorfforol.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Gweithredir Maes Llafur Cytunedig Sir Gwynedd ac Ynys Môn yn yr ysgol. Cristnogaeth yw prif ffocws y gweithgareddau. Cyflwynir agweddau o'r ffydd Iddewig ac Islam yn ychwanegol fel bod y plant yn dechrau deall fod gan bobl eraill gredoau gwahanol.

Taliadau

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw arian parod. Mae pob taliad e.e. cinio, tripiau, gwisg ysgol yn cael ei wneud ar lein drwy'r ap 'School Gateway'

Ebost a rhifau ffon.

Mae hi'n hanfodol i chi rannu eich ebost a rhifau ffôn cyfredol gyda ni o ran diogelwch pe byddai angen cysylltu, ac er mwyn anfon gohebiaeth yr ysgol drwy ebost.

Clwb ar ol ysgol

Mae yna glwb gofal ar ol ysgol ar safle yr ysgol yn cael ei redeg gan staff Y Cylch Meithrin. Gellir archebu lle yn y clwb yma drwy gysylltu gyda'r Cylch.
cylch.meithrin.pwllheli@gmail.com

Cyfleusterau toiledau

Y mae'r cyfleusterau toiledau, sydd ar gael i'r disgyblion, yn bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch yr HSE. Bydd y toiledau'n cael eu harchwilio a'u glanhau'n ddyddiol gan ddefnyddio'r cemegolion glanhau a argymhellir gan yr Awdurdod.

Cwricwlwm yr ysgol - Cwricwlwm i Gymru

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig. Ers Medi 2022 mae'r ysgol yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gweledigaeth yr ysgol, ynghyd a model y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig yn Cymerau wedi'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol. Mae holl ddisgyblion, rhieni, Llywodraethwyr a staff yr ysgol wedi cyfrannu tuag at greu ein gweledigaeth ni. Mae'r cwricwlwm yn seiliedig ar y **pedwar diben**, sef datblygu plant i fod yn:

1. ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
2. gyfranwyr mentrus, uchelgeisiol
3. yn unigolion iach a hyderus
4. ddysgwyr egwyddorol, gwybodus

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrenu
Defnyddio'r Gymraeg

Y Gymraeg yw prif gyfrwng dydd i ddydd yr ysgol. Rydym yn falch iawn o hyn. Ethos gwbl Gymreig sydd yn yr ysgol ond gweithiwn tuag at annog pob disgybl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Yn deillio o hyn, mae gan Gyngor Gwynedd bolisi iaith addysg sydd yn ganllaw i ysgolion. Mae pob ysgol sydd dan ofal yr awdurdod lleol yng Ngwynedd yn addysgu drwy'r Gymraeg ac yn gwneud ymdrechion i hyrwyddo'r iaith o dan y cynllun 'Siarter Iaith Gymraeg'.

Caiff y Saesneg ei gyflwyno'n ffurfiol ym Mlwyddyn 2 er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol hon yn 11 mlwydd oed.
Yn ystod eu taith o Flwyddyn 3 i flwyddyn 6 fe addysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn sicrhau fod pob plentyn yr un hyderus a galluog yn y ddwy iaith erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol hon.
Caiff plant sy'n cychwyn ym mlwyddyn 2 neu uwch, ac sy'n newydd i'r Gymraeg, eu gwahodd i fynychu Uned Iaith am dymor lle cant eu trochi yn y Gymraeg. Fe fydd yr uned yma wedi ei leoli ar dir Cymerau o Ebrill 2025. Bydd hyn yn eu galluogi i integreiddio i mewn i fywyd yr ysgol ynghyd â'r gymuned leol.
Caiff y plant yn Ysgol Cymerau eu hasesu yn eu gallu o ran Cymraeg fel Iaith Gyntaf sydd yn unol â pholisi iaith yr Awdurdod Lleol.
Cyn i ddisgyblion Blwyddyn 6 drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd, cynhelir cyfarfod rhwng Pennaeth Blwyddyn 7 ac athrawon yr ysgol hon er mwyn sicrhau trosglwyddiad hwylus i'r cam nesaf o'u datblygiad.
Mae'r ysgol hon wedi mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau'r Siarter Iaith Gwynedd.

IAITH

Mae datblygiad ieithyddol plentyn yn sylfaen i ddysgu. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol hyn drwy amrywiol brofiadau sydd wedi ei chynllunio i symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deallus yn y ddwy iaith.

GWRANDO

Rhoddir sylw i ddatblygu gallu plentyn i wrando'n effeithiol mewn sefyllfaoedd torfol, sefyllfaoedd grŵp ac fel unigolyn er mwyn iddo gael pleser, ymateb i gyfarwyddyd ac ymateb yn greadigol a deallus.

SIARAD

Rhoddir pwyslais ar greu sefyllfaoedd lle fo plant yn cael cyfle i ddatblygu'r gallu i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn iaith briodol i'r sefyllfa dan sylw, gan ymarfer gofal am gywirdeb.

DARLLEN

Mae'r ysgol hon yn rhoi pwyslais ar feithrin y plentyn fel darllenwr o'r cychwyn cyntaf fel y gall:

- gael pleser neu ddiddanwch.
- ddyfnhau ei ddealltwriaeth.
- gasglu gwybodaeth.
- ddatblygu'i allu i fod yn feirniadol yn ei ddarllen ac i werthfawrogi llyfrau da.

YSGRIFENNU

Rhoddir cyfle i'r plentyn ymateb yn ysgrifenedig i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd ac i ysgrifennu i wahanol ddibenion fel y gall:

- ddefnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i fynegi ei hun a gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas.
- ddefnyddio ysgrifennu i ddyfnhau'i ddealltwriaeth.
- ddewis a defnyddio ffurf ar ysgrifennu sy'n briodol ar gyfer pwrpas sydd iddo.
- arbrofi a datblygu ei sgiliau creadigol.

Mathemateg a Rhifedd

Mae fframwaith mathemateg yr ysgol yn seiliedig ar ofynion y Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig o fewn Cwricwlwm i Gymru. Ceir 4 datganiad ar gyfer y maes mathemateg a Rhifedd, sef:

1. Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
2. Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
3. Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol
4. Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae’r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Mae’r cwricwlwm hefyd yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynnol, sef:

1. Dealltwriaeth gysyniadol
2. Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
3. Rhuglder
4. Rhesymu rhesymegol
5. Cymhwysedd strategol

Dysgu digidol

Credwn ei fod yn allweddol bwysig ein bod yn arfogi’n plant gyda’r sgiliau angenrheidiol ar gyfer byd gwaith y dyfodol. Dysgwn sgiliau cyfrifiadureg / technoleg ddigidol trwy weithgareddau ymarferol ar draws ystod o weithgareddau amrywiol ac mae’n cyfrannu i waith ar draws y cwricwlwm. Ymdrechwn i godi ymwybyddiaeth plant o botensial technoleg digidol yn y byd o’u cwmpas ac i ymdrin ag o’n hyderus a diogel.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn rhoi sylw i'r isod:

- Deall natur a phethau byw.
- Dysgu am ddylunio ac adeiladu pethau.
- Sut mae technoleg yn gweithio a sut i'w ddefnyddio i ddatrys problemau.

Ceir 6 Datganiad o'r hyn sy'n Bwysig o fewn y maes hwn, sef:

1. Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
2. Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
3. Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
4. Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
5. Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.
6. Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol.



Y Dyniaethau

O fewn y maes dysgu a phrofiad Dyniaethau rhoddir cyfleodd i'r dysgwyr ddysgu am hanes, daearyddiaeth a chrefyddau. Maent hefyd yn dysgu am fusnes a gwleidyddiaeth h.y. sut mae'r wlad yn cael ei rhedeg, a hefyd am y gymdeithas a sut mae pobl yn ein gwlad yn byw gyda'i gilydd.

O fewn y maes hwn rhoddir sylw i 5 Datganiad o'r hyn sy'n bwysig. sef:

1. Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae’r maes dysgu a phrofiad hwn yn eang ac yn rhoi cyfleodd i ddysgwyr mynegi eu hunain drwy waith celf, dawns, cerddoriaeth a chyfryngau digidol. Ceir 3 Datganiad o’r hyn Sy’n Bwysig, sef:

1. Mae archwilio’r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae’n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion
2. Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol
3. Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Cerddoriaeth – Mae cynllun Ysgolion William Mathias, sy'n darparu athrawon teithiol i ddysgu offerynnau o fewn ysgolion. Codir ffi am y gwersi. Ar hyn o bryd gall Ysgol Cymerau drefnu gwersi, ffidil, soddgrwth, offerynnau pres, piano a drymiau.

Iechyd a Lles

Mae’r maes dysgu a phrofiad hwn yn sicrhau cyfleodd i ddysgwyr ddysgu am gael corff iach, a meddwl iach. Maent hefyd yn cael cyfleoedd i ddeall beth yw perthnasoedd iach a sut i wneud penderfyniadau bywyd da. Mae 5 Datganiad o’r hyn Sy’n Bwysig o fewn y maes hwn, sef:

1. Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
2. Mae’r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a’n lles emosiynol
3. Mae’r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
4. Mae’r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a’n lles.
5. Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles

Yr Elfennau Gorfodol

Mae’r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn nodi 4 maes gorfodol sydd rhaid cael eu cyflwyno ym mhob ysgol.

1. Y Gymraeg
2. Y Saesneg
3. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
4. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Themau Trawsgwricwlaidd

O fewn Cwricwlwm i Gymru mae 5 thema trawsgwricwlaidd.

1. Hawliau Dynol
2. Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol – yr ardal sy’n lleol i ni ym Mhwllheli, dysgu am Gymru, a’r byd yn ehangach.
3. Gyrfoedd a phrofiadau cysylltiedig â’r byd gwaith - Dysgu am waith a sut i ddewis y math o waith y dymunai’r dysgwyr ei wneud.
4. Amrywiaeth – Parchu gwahaniaethau pobl e.e beth maen nhw’n ei gredu neu o le maen nhw’n dod.
5. Addysg cydberthynas a rhywioldeb - Mae’r maes yma’n Nghymru’n statudol. Nid oes gan rieni/gwarchodwyr yr hawl i eithrio eu plentyn/plant o’r addysg hwn. Yn Ysgol Cymerau byddwn yn sicrhau fod y maes yn cael ei addysgu o fewn cyd-destun ac yn addas a phriodol i oedran y disgyblion. Bydd y dysgwyr yn dysgu am deimladau, perthnasoedd iach a sut rydyn ni’n meddwl amdanom ni ein hunain.

LLAIS Y DYSGWYR

CYNGOR YSGOL

Sefydlwyd y Cyngor Ysgol gyda'r prif nod o roddi cyfle i ddisgyblion chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Caiff aelodau'r cyngor eu hethol gan ddisgyblion yr ysgol. Ceir cynrychiolydd o bob dosbarth CA2 ar y Cyngor Ysgol, gyda chynrychiolaeth hefyd o'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn cyfarfod i drafod materion sy'n bwysig i blant ysgol gan adrodd yn ôl i'r Pennaeth, neu'r aelod staff perthnasol. Maent yn cyfarfod er mwyn trefnu gweithgareddau datblygu'r ysgol, trefnu gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi, ac yn ddiweddar ail sefydlu trefn 'ffrindiau ffeind' ar yr iard yn ystod amser chwarae.

YSGOL IACH

Mae Ysgol Cymerau yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd a Môn. O ganlyniad i waith caled cymuned yr ysgol, cwblhaodd yr ysgol y Cam Aur yn llwyddiannus. Mae addysgu'r disgyblion am arferion byw yn iach yn flaenoriaeth gyson gan yr ysgol hon.

YSGOL ECO

Mae gan yr ysgol bwyllgor Ysgol Eco sy'n cynnwys plant o Flwyddyn 3 i 6. Mae'r plant hyn wedi eu hethol gan holl ddisgyblion yr ysgol o fewn eu dosbarthiadau. Mae eu gwaith caled wedi arwain at lwyddiant, gyda'r ysgol bellach wedi ennill y Faner Werdd. Nod yr ysgol yw addysgu plant a chodi ymwybyddiaeth ynddynt o'r angen i ofalu am yr amgylchedd.

GRŴP TEITHIO LLESOL

Y Grŵp Teithio Llesol sydd yn cynorthwyo i hyrwyddo fod y plant a rhieni yn gwneud dewisiadau iach a llesol wrth ystyried sut i ddod i'r ysgol. Ceir cynrychiolaeth o bob dosbarth o flwyddyn 3 i 6 yn y grŵp yma.

Lles

Mae'r ysgol yn credu fod gan bob plentyn, waeth beth yw ei gefndir yr hawl i addysg ragorol. Rydym yn cydweithio gyda'r plant a'r rhieni / gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau fod bob plentyn yn 'barod' i ddysgu. Golyga hyn gryn dipyn o fewnbwn a chefnogaeth emosiynol gyda rhai o'r plant.
Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau fod plant sydd 'mewn gofal' o fewn yr ysgol hon yn cyflawni'r gorau y gallent. Mae gan yr ysgol grŵp magwraeth sy'n cynnal sesiynau bob prynhawn yn nosbarth 'Llecyn', ac yn cyflogi dwy gymhorthydd sydd wedi cymhwyso i ddarparu sesiynau ELSA. Maent yn arbenigo mewn darparu cynhaliaeth emosiynol a chymdeithasol i'r plant. Yn ogystal â hyn mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn â nifer o asiantaethau eraill er lles ein plant.

Diogelu plant

Y Pennaeth yw'r Swyddog Dynodedig Diogelu Plant o fewn yr ysol a chaiff ei gefnogi gan Miss Karen Roberts-Jones, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol sy'n hefyd yn gweithredu fel yr Is Swyddog Dynodedig Diogelu Plant. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau diogelwch pob disgybl. Os oes gennych bryderon gofynnwn i chwi gysylltu gyda'r Pennaeth neu Miss Jones. Swyddog Diogelu Plant yr Awdurdod Addysg ydi Llion Williams gyda rhif ffôn cyswllt 01286 679799.

Ymddygiad ac ymagweddau

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ymddygiad ac ymagweddiad positif o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn cyflawni ei phwrpas, sef datblygu twf a datblygiad pob plentyn. Credwn fod plentyn hapus yn dysgu yn dda. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan disgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn eich cefnogaeth fel rhieni yn hyn o beth. Mae ein gwerthoedd o **Barch, Cydweithio, Ymdrech** a **Dyfalbarhau** yn treiddio trwy holl fywyd yr ysgol ac yn paratoi pawb i fod yn ddysgwyr diogel ac effeithiol.

Gweithgareddau Ychwanegol

Mae’r ysgol yn gofyn yn garedig am gydweithrediad a chefnogaeth rhieni gydag unrhyw weithgaredd ychwanegol a drefnir, megis gweithgareddau’r Urdd, ymarferion ar gyfer eisteddfodau ac ymarferion pêl-droed, pêl-rwyd a.y.y.b. Gofynnir i rieni sicrhau eu bod yn trefnu i hebrwng y plant gartref ar ddiwedd y gweithgaredd, neu ein hysbysu os ydi eich plentyn ym mlynyddoedd hynaf yr ysgol yn cael cerdded adref.

Yr Urdd

Yn ystod Tymor yr Hydref gwahoddir disgyblion i ymuno gyda’r Urdd. Trwy ddod yn aelod o’r Urdd caiff y plant gyfle i gystadlu gyda gwaith celf a chrefft, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn ogystal â chystadlu yn yr Eisteddfod yr Urdd. Caiff aelodau Blynyddoedd 4, 5 a 6 gyfle i fynychu cyrsiau preswyl Glan Llyn, Caerdydd neu Llangrannog yn flynyddol.

Codi tâl am weithgareddau

Egwyddor sylfaenol Deddf Addysg 1988 oedd y dylai gweithgareddau addysgol fod yn ddi-dâl i bob disgybl. Rydym yn ymdrechu hyd eithaf ein gallu i gadw costau i lawr i rieni. Serch hynny, mae gan yr ysgol hawl statudol i ofyn i rieni gyfrannu tuag at gostau gyda'r ddealltwriaeth na fydd unrhyw blentyn yn dioddef anfantais os na all rieni gyfrannu’n ariannol. Mae’r ysgol bob amser yn barod i helpu teuluoedd gyda sefyllfaoedd cyllidol, yn unol â’r Polisi Codi am Weithgareddau. Caiff pob rhiant gyfle i dalu am weithgareddau ychwanegol dros gyfnod o amser neu mewn un taliad. Gofynnir i rieni dalu cyfraniad at gost gwersi nofio ac ar gyfer teithiau/ymweliadau achlysurol. Dynodir y swm blynyddol gogyfer â gwersi offerynnol gan y corff llywodraethol.

POLISIAU

Cysylltwch hefo’r ysgol os ydych angen gweld y polisi llawn.

POLISI GWRTH FWLIO YR YSGOL

Y **POLISI:**
Mae gan yr ysgol bolisi pendant sy’n amlinellu sut rydym yn delio ag achosion o fwlio pan ddigwydd yn yr ysgol. Mae’r polisi’n cydymffurfio â **chanllawiau Gwrth-fwlio (Cylchlythyr 23/2003)**

NOD Y POLISI:
1. Creu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n gartrefol, yn ddiogel ac yn hapus. Dim ond mewn amgylchedd fel hwn y gall plant gyrraedd eu llawn botensial. Mae pob math o fwlio yn tanseilio cyfle cyfartal.
2. Mae'r polisi hwn yn caniatáu i'r ysgol adnabod bwlio cyn gynted ag y bydd yn dechrau gan ganiatáu i'r staff ddelio â'r sefyllfa a'i datrys cyn gynted â phosibl.

Pan fo’r ysgol yn adnabod achosion o fwlio fe fydd yn dilyn y camau isod:
1. Trafod y digwyddiad gyda'r plant yn unigol.
2. Cynnal cyfarfod gyda’r rhieni/gwarcheidwaid.
3. Cofnodi’r dystiolaeth a gasglwyd.
4. Gweithredu pellach os oes angen.

POLISI CYDRADDOLDEB

Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb.

NOD Y POLISI:
1. Darparu cyfle i bob disgybl, beth bynnag fo’i ryw, ei allu, ei gefndir diwylliannol ag ethnig.
2. Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn dioddef rhagfarn ar sail hil, cred, rhyw, iaith, gallu addysgol, safle cymdeithasol nac anabledd.
3. Sicrhau fod holl ystod y cwricwlwm ac holl adnoddau’r ysgol ar gael i bob disgybl.
4. Sicrhau fod agweddau cymdeithasol cadarnhaol yn cael eu meithrin yn yr ysgol ymhlith plant ag oedolion. Anogir plant i gydweithio ac i ddangos dealltwriaeth o’u cyfrifoldeb tuag at eraill.

POLISI FFONAU SYMUDOL

Mae gan yr ysgol bolisi ffonau symudol.

NOD Y POLISI:
Mae gan bob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion a thrwy hynny, mae'r ysgol hon yn hyrwyddo atal camdriniaeth ac esgeulustod trwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i'w disgyblion.

Mae'r ysgol hon o'r farn fod bwlio seibr yr un mor ddifrifol â ffurfiau eraill o fwlio.

O ganlyniad ni ellir caniatáu defnyddio ffonau symudol gan ddisgyblion tra ar safle'r Ysgol. Os oes rhaid i blentyn ddod â ffôn symudol gydag ef/ hi i'r ysgol am resymau arbennig fe fydd yn rhaid iddo / iddi ei adael yn y swyddfa gynted ag y bydd yn cyrraedd yr ysgol.

Trefn Disgyblu
Pe bai disgybl yn defnyddio ffôn symudol tra ar safle'r Ysgol mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi 'Rheoli Ymddygiad Disgyblion' yr Ysgol. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn cadw ei ffôn, wedi'i diffodd mewn man ddiogel a ddarperir gan yr Ysgol i'r pwrpas hwnnw. Dychwelir y ffôn symudol ar derfyn y diwrnod ysgol. Os bydd y disgybl yn torri'r rheol am yr ail-dro cedwir y ffôn hyd nes bydd rhiant wedi dod i'r ysgol i'w nôl.

POLISI ADDYSG RHYWIOLDEB A PHERTHNASEDD

NOD Y POLISI:

Nod y polisi hwn yw ychwanegu yn gyfrifol ac yn ddatblygiadol at wybodaeth a phrofiadau plant am eu cyrff a'u perthynas o'r byd o'u cwmpas. Trwy wneud hyn bydd y disgyblion yn gallu delio yn well yn ystod glasoed wrth ddatblygu sgiliau a hunain barch i fod yn hyderus yn eu arddegau.

Amcanion Cyffredinol

- Cyflwyno Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasoedd fel rhan o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol gynhwysfawr
- Paratoi disgyblion ar gyfer glasoed
- Datblygu sgiliau a hunan barch i gynorthwyo plant wrth gyrraedd eu arddegau
- Delio â phryder a chywiro camddealltwriaeth y gall plant eu cael o'r cyfryngau a chyfoedion
- Datblygu sgiliau i gynorthwyo plant i'w hamddiffyn eu hunain rhag profiadau rhywiol nad ydyn nhw am eu cael
- Trafod agweddau a gwerthoedd

Y DREFN GWYNO

Mae'r Corff Llywodraethu yr ysgol, yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Addysg 2002, wedi sefydlu trefn ar gyfer trin cwynion gan rieni. Bydd y Corff Llywodraethol yn ystyried canllawiau'r Cynulliad Cylchlythyr 03/2004 pan ddaw unrhyw gwyn i law. Bydd pob broses yn dilyn y drefn a nodir yn y ddogfen. Mae'r Llywodraethwyr wedi sefydlu trefn tri cham i drin a chwynion.

Cam 1

Cwyn lafar/ysgrifenedig i aelod o staff neu'r pennaeth. Gwneir pob ymdrech gan y pennaeth i ddatrys y gwyn ar y cam hwn.

Cam 2

Cwyn ysgrifenedig i'r pennaeth a gaiff ei archwilio a'r canlyniad yn cael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i'r achwynydd.

Cam 3

Os nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r canlyniad fe all y Corff Llywodraethu ystyried y mater. Clywir y gwyn gan Is-Banel Cwynion y Corff. Yn dilyn cwblhau Cam 3 gall y corff llywodraethol neu'r achwynydd gysylltu â'r AALl i adolygu'r drefn. Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r pennaeth.

“LLE DAW DWY AFON YN UN LLI.”

Ffordd Mela, Pwllheli, Gwynedd. LL53 5AR

www.ysgolcymerau.org

alan.jones@cymerau.ysgoliongwynedd.cymru